# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod BRYS 10/08/2020 7:00yh – Neuadd y Pentref

Thomas Victor Jones
William Penri Jones
John Brinley Jones
Rhian Parry (Clerc)
D Andrew Parry
Barbra Warren – ar rhan Neuadd y Pentref
William Roger Jones

**Yn unol a canllawiau COVID-19 bydd PPE ar gael i'r holl aelodau yn ogystal a chadw 2m i ffwrdd bob amser. Gweler asesiad risg Cyngor Cymuned Llanbedrog a Canllawiau COVID-19**

Mae'r Clerc yn croesawu John Brinley Jones ir gadair yn dilyn ymddiswyddiad y Cyn Gadeirydd Iwan Hughes.

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim

3. **Seddi Gwag**
   Croesawu is-gadeirydd John Brinley Jones i'r gadair yn dilyn ymddiswyddiad y cadeirydd Iwan Hughes. Mae John Brinley Jones yn ddiolchgar iawn am y croeso ac yn edrych ymlaen at yr her o'i flaen.
   Yn sgil hyn penderfynwyd ethol is-gadeirydd, Mae William Penri Jones yn cynnig (eilydd; William Roger Jones) Andrew Parry fel Is-gadeirydd. Mae Andrew Parry yn hapus i dderbyn y rôl ac mae'r penderfyniad yn unfrydol. Mae John Brinley Jones yn croesawu Andrew Parry fel Is-gadeirydd.
   Mae'r Clerc wedi derbyn ymddiswyddiad gan Iwan Hughes (cadeirydd), Evan Glyn Thomas a Barbara Warren.
   Yn sgil y tri ymddiswyddiad yma yn dilyn pwyllgor 27/07/2020 nid yw'r pwyllgor yn barod i dderbyn yr ymddiswyddiadau yma heb roi un cyfle eto i'r aelodau yma tynnu eu hymddiswyddiadau yn ôl. Os na fydd yn tynnu eu hymddiswyddiadau yn ôl erbyn 14/08/2020 bydd y pwyllgor yn derbyn eu ymddiswyddiad yn ffurfiol ac yn hysbysebu'r seddi gwag.
   Mae Claire Russell Griffiths wedi colli ei sedd gan nad yw wedi bod yn bresennol mewn unrhyw cyfarfod o'r Cyngor Cymuned o gyfarfod 24/06/2019 hyd at 25/05/2020. Gan ei bod wedi methu 6 cyfarfod yn olynol (cyn mesuriadau covid-19) mae wedi colli ei sedd yn awtomatig. Bydd ei sedd hefyd yn cael ei hysbysebu.

4. **Cofnodion 27/07/2020**
   Ni naethwyd benderfynniad ar chofnodion cyfarfod 27/07/2020 gan fod aleod nad oedd yn gallu mynych heno yn nodi ar ebost nad yw'n cytuno gyda'r cofnodion. Nid oedd unrhyw eglurhad pellach.
   Rhoddir cyfle I'r aelod egluro ei rhesymau pam nad yw'n cytuno a chywirdeb y cofnodion yn y cyfarfod nesaf.
   Nodwyd John Brinley Jones; "Er bod y cofnodion yn ffeithiol gywir efo hyn a benderfynwyd, dwi ddim yn teimlo for y cofnodion yn adlewyrchu y drwg deimlad a'r tensiwnn roedd rhwng cyd aelodau efo'i gilydd a efo'r clerc. Yr un fath o densiwn yn cyfarfod Mehefin 2019 lle dywedodd ac awgrymodd un aelod bethau cas a di sail yn fy erbyn (defamation of character and slander)"
   Nodwyd bod yr holl aelodau presonol heno eisiau ymddiheuro i'r aelodau gweithgar a gwerthfawr a'r Clerc am gyfarfod mor ymosodol bersonol a maleusus a'r cyhuddiadau di sail. Hoffwn eto ddiolch am y gwaith caled.

5. **Awdit**
   - **18-19** - Mae'r Clerc wedi gyrru adroddiad cyfrif banc i'r BDO. Mae'r Clerc wedi gwneud sylwadau ar daflen bancio 2019-20 sydd yn datrys y broblem bancio hanesyddol. Bydd angen cysylltu eto yn dilyn gyrru awdit 2019-20 ymlaen. Bydd y Clerc yn dilyn i fynnu ar hyn.

- **19-20** - Mae'r holl ddogfennau wedi eu harchwilio yn fewnol. Nid yw'r cysoniad banc yn gyd fynd gyda gwybodaeth hanesyddol ond mae'r gwall wedi ei amlygu mewn dogfennau hanesyddol. Bydd angen gwneud nodyn o hyn ar y ddogfennaeth sydd yn cael eu gyrru i'r BDO. Mae cyfrifon llyfr arian y Clerc yn cysoni gyda'r hyn sydd wedi ei wario ac incwm y flwyddyn. Mae'r gwall yn hanesyddol ac yn debygol y bydd rhaid nodi'r gwahaniaeth yma o - £0.47 i'r dyfodol.
  Yn sgil pryderon ynglŷn ag adroddiad yr archwiliad mewnol mis diwethaf penderfynwyd gohirio arwyddo'r ffurflen, er cael mwy o wybodaeth ar y materion a gofnodwyd yn adroddiad yr archwiliad mewnol. Mae'r aelodau wedi darllen adroddiad yr archwiliad mewnol ac adroddiad y Clerc (**Atodiad 1**) ac yn cytuno bod gwelliannau wedi eu gwneud ac yn sylweddoli'r bod angen helpu'r Clerc hel gwybodaeth i ddatrys y nodiadau yn yr Archwiliad mewnol.
  Mae'r Clerc yn nodi nad oes angen dal y ddogfennaeth yn ôl o'r BDO i wneud archwiliad pellach. Cytunwyd i arwyddo'r dogfennau a'i gyrru ymlaen i'r BDO.
  Rhoddir hawl yn cyfarfod blaenorol i John Brinley Jones gysylltu gyda'r Uned Archwilio fewnol er derbyn mwy o wybodaeth a threfnu cyfarfod at ddechrau mis Medi. Bu i John Brinley Jones wneud hyn a derbyniwyd lythyr yn ôl yn diolch am y gwahoddiad a hefyd ymddiheurad am beidio â chysylltu yn syth. Hefyd cafwyd wybod bod cyn aelod Claire Russell Griffiths wedi cysylltu gyda'r uned Archwilio fewnol heb iddi gael hawl i wneud hyn.
  Mae William Penri Jones yn cynnig (eilydd; John Brinley Jones) arwyddo'r dogfennau a'i gyrru i'r BDO. Mae'r penderfyniad yn unfrydol.
  Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu at 07/09/2020 gyda'r Archwiliad mewnol

6. **Neuadd y Pentref**

Trafodwyd y mater yma yn gyntaf i er hwylustod i Barbara Warren ar rhan Neuadd y Pentref.
Mae Barbara Warren yn cynrychioli Pwyllgor y Neuadd – Mae Adroddiad y Trysorydd wedi eu cyflwyno yn ystod cyfarfod Pwyllgor Neuadd y Pentref 6:30yh 27/07/2020. (Bydd y pwyllgor yn gyrru copi o'r adroddiad i'r Cyngor Cymuned er gwybodaeth)
Mae'r Cyngor Cymuned eisiau diolch yn fawr iawn i Barbara Warren am ei gwaith caled gwirfoddol fel trysorydd Neuadd y Pentref ers rhai blynyddoedd bellach. Nid yw'n waith hawdd a chytunwyd y bydd angen mwy o wirfoddolwyr i helpu hefo'r gwaith. Mae John Brinley Jones yn nodi yn hanesyddol roedd gymysgedd o sefydliadau yn gwirfoddoli ar y pwyllgor; Merched y Wawr, yr Ysgol, Capel ac Eglwys ac ati.
Mae Victor Jones yn cynnig (eilydd; William Roger Jones) estyn gwahoddiad i'r mudiadau lleol i gynrychioli ei sefydliad ar y pwyllgor.
Yn ystod y pandemig COVID-19 mae Cyng. Angela Russell ac Iwan Hughes wedi ceisio am grant gan y llywodraeth ar ran Neuadd y Pentref ac maent wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn £10,000.00. Mae'r Aelodau yn penderfynu gyrru llythyrau diolch i Angela Russell ac Iwan Hughes am eu gwaith caled. Bydd y Clerc yn gweithredu.
Mae'r Neuadd angen posteri priodol a dosbarthydd hylif glanhau dwylo ar gyfer y cyhoedd. Mae William Penri Jones yn cynnig (eilydd; Andrew Parry) pwrcasu'r rhain - £70 am boster a dosbarthydd a £12 am boster ychwanegol.
Nodwyd nad yw Barbara Warren wedi cael ei thalu am waith glanhau Neuadd y Pentref ers mis Chwefror. Mae William Penri Jones yn cynnig (eilydd; William Roger Jones) gwneud y taliad yma am y 6 mis diwethaf.
Mae'r ysgol feithrin yn awyddus i wneud gwaith clirio a thwtio yn ystod covid-19 ac ynn gofyn a chaiff symud rhai o'r eitemau o'r storfa dros dro, cytunwyd y bydd hyn yn iawn.
Mae'r Cyngor Cymuned eto eisiau Diolch i Barbara am ei gwaith caled a pharodrwydd i wirfoddoli i gyflawni dyletswyddau.

7. **Cyfrifon**
   Mae'r Clerc yn bryderus bod dau o'r aelodau sydd wedi ymddiswyddo ar fandad y banc. Mae hyn yn gadael un Aelod a'r Clerc ar y mandad. Mae'r pwyllgor yn enwebu'r is-gadeirydd Andrew Parry i fod ar y mandad. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau cyn gynted a bod modd.
8. **Diffibriliwr**
   Mae'r diffibriliwr yn gweithio. Mae'r padiau a'r batri o fewn dyddiad hyd at ddiwedd mis Medi ond mae'n ymddangos fod y padiau wrth gefn wedi cael eu defnyddio heb rhoi wybod I'r Cyngor Cymuned.
   Diolch I Andrew Parry am tynnu'r cabinet oddi ar y wal.
   Mae cabinet Newydd wedi ei bwrcasu eisoes ac rydym wedi derbyn anfoneb o £595.98 gan Defib Store. Ni fydd y Defib Store yn gyrru'r cabinet Newydd tan maent yn derbyn siec. Yn dilyn cynnig Claire Russell Griffiths (Eilydd; Greta Hughes) yn cyfarfod 27/07/2020 i rwystro talu'r siec i Defib Store nid yw'r cabinet wedi ei yrru. Mae Andrew Parry yn cynnig gwelliant (eilydd; William Penri Jones) I dalu'r siec a gwneud ymholiadau a phwrcasu diffibriliwr Newydd cyn gynted a bod modd.
   Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn pris am diffibriliwr Newydd gan Zoll - Aed Plus £800.00 + TAW, Postio £19.90 + TAW. Mae'r aelodau yn hapus i bwrcasu'r diffibriliwr yma yn dilyn cais i ostwng y pris.

9. **Materion syn codi**
   - **Diolch** - Mae'r aelodau yn awyddus i ddiolch i Iwan Hughes ac Evan Glyn Thomas am gynnig trwsio gwaelod concrid y ddelw**.**
   - **Y Fynwent –** Mae'r aelodau yn awyddus i waith clirio cael ei wneud yn y fynwent. Bydd y Clerc yn gofyn I Andrew Pozzi gwneud y gwaith clirio yma yn cynnwys torri'r coed yn ôl a chlirio ambell fedd sydd wedi côr dyfu.
   - **Parcio'r Neuadd –** Mae'n amser i gau maes parcio'r neuadd i'r cyhoedd am ddiwrnod cyfan er gwarchod hawliau'r neuadd.

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Tyddyn Sachau** – Blodau a hanner casgeni | **£164.94** |
| **Defib Store** - Cabinet Newydd | **£595.98** |
| **Zoll Medical** – Diffibriliwr Newydd | **£983.88** |

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – John Brinley Jones • john@ppm-technology.com • 07775 577 869 •

## Atodiad 1

## Adroddiad y Clerc 2019-20

**Mae nifer o'r eitemau a codwyd yn archwiliad 2018-19 bellach wedi eu datrys;**

| | |
|---|---|
| **Gwefan y Cyngor** | Holl ddogfenaeth y Cyngor Cymuned ar gael a'i hysbyseb yn cyhoeddus.<br>Oll manylion cyswllt ar y we. |
| **Lwfans Cynghorwyr** | Cofrestr llawn o benderfyniad aelodau |
| **Llyfr arian** | Yn cael ei gadw'n gyfredol |
| **Rheoliadau** | Cyngor Cymuned wedi mabwysiadau;<br>Rheolau Sefydlog<br>Rheoliadau Ariannol<br>Asesiad Risg<br>Cod Ymddygiad<br>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol<br>Polisi Iaith<br>Rheolau'r Fynwent<br>Trefn Cwyno |
| **Swyddog Ariannol** | Clerc yw'r swyddog Cyfrifol |
| **Taliadau** | Taliadau wedi eu cofnodi gyda'r anfonebau wedi eu cofnodi yn cofnodion |
| **Cyfrifion** | Cyfrifon yn cytuno a'r llyfr arian |

**Mae'r eitemau isod wedi eu nodi ar adroddiad archwiliad mewnol 2019-20.**

**Methiant i ad hawlio TAW**
Nid oedd mandad banc wedi ei ddatrys tan ddechrau 2020 gan fod gwallau hanesyddol gan y Cyngor Cymuned a drafodwyd yn helaeth ar nifer o adegau yn ystod pwyllgorau. Mae bellach 4 enw ar y mandad sydd wedi eu cadarnhau gan LloydsTSB. Yn anffodus mae dau o'r aeloadau sydd wedi eu nodi ar y mandad bellach wedi ymddiswyddo.
Mae'r un broblem yn codi gyda chyfrif NatWest ac mae'r gwaith i ddatrys hyn dal i fynd yn ei flaen.

**Methiant i baratoi cyllideb flynyddol i gefnogi'r praesept**
Mae Cyllideb 2020-2021 wedi ei baratoi gan y Clerc ac wedi ei gadarnhau mewn cyfarfod 20/01/2020. Mae'n anodd iawn i glerc newydd sydd heb fynediad i gyfrifon y Cyngor gwneud cyllideb. Fel yr wyf wedi nodi eisoes, mae i fynnu i'r cynghorwyr ddethol gwariant.

**Methiant i ystyried y cronfeydd wrth gefn pan yn pennu'r praesept**
Cofnwyd y mater yn gyfarfod 20/01/2020 lle mae'r Clerc yn cynghori'r aelodau am pryderon o godi'r preasept pan nad yw'r holl arian wedi ei wario ac fod yna swm sylweddol tucefn. Penderfyniad yr aelodau oedd i godi'r presept yn sgil hyn.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – John Brinley Jones • john@ppm-technology.com • 07775 577 869 •

**Methiant i ddidynnu TWE/YG yn briodol o gyflog y Clerc a'i dalu i CThEM**
Mae hyn hefyd wedi ei drafod yn sylweddol, bu nifer o gysylltiadau gyda gwasanaethau allanol i wneud y gwaith gan nad yw'n briodol I'r Clerc wneud y gwaith ei hun. Nid oedd unrhyw gwmni eisiau gwneud y gwaith am swm mor isel. Hwn yw unig incwm y Clerc felly mae o dan lefelau treth.

**Methiant i adnabod gwerth asedau'r Cyngor ar y gofrestr asedau**
Mae'r rhestr asedau wedi ei godi nifer o weithiau mewn cyfarfodydd, nid oes unrhyw ymateb i'r rhestr wedi ei dderbyn gan y Clerc i lunio'r rhestr. Wrth gyflwyno'r rhestr asedau i'r archwilwyr mewnol nodwyd ei fod yn anghyflawn.

**Methiant i gynnal cysoniad cywir, sicrhau bod cyfrifon yn cytuno â'r banc a bod y datganiad blynyddol yn cael ei gwblhau yn gyflawn a chywir.**
Nodwyd yn gyfarfod 27/07/2020 bod y gwall yn y cyfrif cyffredin wedi ei ddarganfod o'r diwedd yn ol yn 2016-17 gyda help yr archwiliwr mewnol.
Nid yw'n gyflawn gan nad oes mynediad i gyfrif NatWest. Rwyf wedi gyrru cywirdeb i gysoniad 2018-19 a 2019-20 cyn cyfarfod 27/07/20.


Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – John Brinley Jones • john@ppm-technology.com • 07775 577 869 •